

## I sylw'r Ysgolion Sul

Penderfynwyd dileu y teitl 'gwaith cwrs' eleni a chael pob plentyn – o'r ieuengaf i'r hynaf – a'r oedolion i wneud 'cyfraniad', waeth pa mor fychan yw'r cyfraniad. Gosodwyd y testun "**Myfi Yw**" eleni a gwahoddir chi i ddehongli'r testun mewn unrhyw ddull neu fodd gan feithrin sgiliau cynllunio creadigol, ymchwilio a datblygu syniadau hefo eraill yn yr Ysgol Sul.

Derbynnir y cyfraniadau yng Nghapel Trefnant **nos Lun, Ebrill 8fed** rhwng 7.00 ac 8.00 o'r gloch. Gofynnir i chi roi enw pob un yn eglur ar y gwaith. (*Os ydych am baratoi arddangosfa flodau, cewch fynd â'r trefniant i Capel Trefnant erbyn 5.30 nos Wener, Mai 10fed ond bydd angen i chi gysylltu ag Anwen Jones, Ysgrifennydd yr Is-bwyllgor Plant ac Ieuentid ymlaen llaw, os gwelwch yn dda, er mwyn ei galluogi i gynnwys yr enwau yn yr adroddiad.*)

Bydd y Cyfarfod Gwobrwyo yn cael ei gynnal ar nos Wener, Mai 10fed yng Nghapel Trefnant am 6.00. Bydd sgwrs i'r plant, lluniaeth ysgafn i bawb fydd yn bresennol, ac adloniant i'r plant i ddilyn gan griw Coleg y Bala.

## I ddod

- **WORD ALIVE** – Gŵyl Gristnogol (Ebrill 13eg – 18fed) ym mharc gwyliau Prestatyn Sands (Pontins), Prestatyn LL19 7LA. Mwy o fanylion ar gael ar y wefan [wordaliveevent.org](http://wordaliveevent.org). Mae'n fwriad gan rai o'r Ofalaeth i fynd i'r addoliad ar y nos Fercher. Mwy o fanylion i ddilyn.
- **LLANW** – Bydd gŵyl Gristnogol Llanw yn cael ei chynnal yn Ninbych y Pysgod rhwng Ebrill 22ain – 25ain eleni. Cynhelir oedfa bob bore a phob nos yn Neuadd Ysgol Greenhill, ac fe fydd cyfle i fanteisio ar gyfleusterau safle gwyliau Kiln Park yn ystod y dydd, mynychu seminarau neu i fynd am dro i ymweld â llwybrau a thraethau prydferth Sir Benfro. Y prif siaradwr bore Mawrth, Mercher a lau fydd y Parch. Alun Tudur, Caerdydd, a bydd Nia Williams, John Derek Rees, Rosa Hunt a Steffan Morris yn arwain oedfaon gyda'r hwyr. Wedi oedfa'r nos bydd cyfle i ymuno mewn gweithgareddau anffurfiol pellach neu gyfle i ymlacio a chymdeithasu dros baned o de. Mi fydd darpariaeth lawn ar gyfer y plant gydol yr wythnos, clybiau yn ystod y gwasanaethau a rhyddid i fwynhau gweithgareddau eraill yn y prynhawn. Bydd yn ŵyl deuluol ar gyfer holl deulu Crist. Gall unigolyn rhwng 14 a 17 mlwydd oed fynychu'r ŵyl heb eu rhieni os yw Capel neu Warchodwr yn gyfrifol amdano(i). Ewch i'r wefan [www.llanw.org](http://www.llanw.org) i archebu ac/neu am fwy o fanylion.

## Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.



## Llais Bro Aled

Mawrth 17<sup>eg</sup> a 24<sup>ain</sup>, 2019

DILYNWCH NI AR TWITTER:

@eglwysibroaled

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

[hyfforddiantdawn.com](http://hyfforddiantdawn.com)

Croeso cynnes i'r oedfaon heddiw. Wrth i'r sefyllfa wleidyddol Brydeinig symud o un penbleth dryslyd i'r llall, a fawr neb yn siŵr beth yw'r cam nesaf, diolchwn y gallwn ymddiried mewn Duw sydd â'i gadernid yn gysur ym mhob sefyllfa: 'Yr Arglwydd yw fy nghraig, fy nghadernid a'm gwaredydd; fy Nuw yw fy nghraig lle llochesaf, fy nharian, fy amddiffynfa gadarn a'm caer.' (Salm 18:2)

Ac wrth i ni sôn am ddryswch, fe fydd nifer ohonoch yn derbyn ffurflen gennym dros yr wythnosau nesaf ac o bosib yn holi – pam bod angen i'r capel hefyd gael yr holl waith papur yma? Oherwydd deddf gwlad, bydd angen eich caniatâd ysgrifenedig ar gyfer cadw a defnyddio rhai mathau o wybodaeth amdanoch. Bydd hyn yn effeithio ar nifer o agweddau gwahanol o fywyd yr eglwysi a'r Fro gyfan, ac nid oes posib ei osgoi! Fel enghraifft ymarferol, er mwyn gallu cynnwys cofion atoch yn Llais Bro Aled yn sgil gwaeledd neu ddathliad arbennig, bydd yn rhaid i ni gael eich cydsyniad ysgrifenedig yn gyntaf. Gwn fod hyn yn anghyfleus ac yn rhwystredig i nifer, ond mae'n ofynnol arnom fel eglwysi i gydymffurfio â'r ddeddf sy'n diogelu data personol a phreifatrwydd pobl. Rydym yn naturiol am barchu dymuniadau ein cyd-aelodau, ond gweddiwn na fydd hyn yn effeithio'n negyddol ar ein gallu i ddangos gofal dros eraill a charu ein gilydd yn ôl gorchymyn Iesu. (Ioan 13:34)

Er mwyn i ni allu cydymffurfio â'ch dymuniad, gofynnaf yn garedig i chi lenwi'r ffurflen a'i dychwelyd at ysgrifennydd eich eglwys erbyn Sul y Pasg os gwelwch yn dda. Yna, o ddechrau mis Mai ymlaen, gobeithiwn allu cynnwys cofion yn Llais Bro Aled at yr aelodau hynny sydd wedi mynegi eu caniatâd i ni wneud hynny. Os na fyddwn wedi derbyn eich ffurflen, ni fyddwn yn gallu cyfeirio atoch yn Llais Bro Aled hyd nes y byddwn wedi derbyn y caniatâd ysgrifenedig hwnnw. Cofiwch mai – yn y rhan fwyaf o achosion – dim ond unwaith y bydd angen i chi lenwi'r ffurflen ond gallwch dynnu eich caniatad yn ôl neu ei newid ar unrhyw adeg trwy gysylltu ag ysgrifennydd eich eglwys. Os oes unrhyw beth sydd ddim yn glir, cysylltwch â'ch blaenoriaid/ diaconiaid lleol, neu gyda mi neu Mair, ac fe geisiwn ein gorau roi arweiniad i'ch helpu!

Rhodri

## Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 [rhodri@eglwysibroaled.com](mailto:rhodri@eglwysibroaled.com) ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291

Mair – 📧 [mair@eglwysibroaled.com](mailto:mair@eglwysibroaled.com) ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma – 17<sup>eg</sup> ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwion Dafydd a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mawrth 19<sup>eg</sup> ➤ **Cyfarfod Chwiorydd Bro Aled** yng Nghapel Cefn Berain am 7.00. Siaradwr gwadd: Mr Aled Lewis Evans, Wrecsam. Gwneir casgliad yn ystod y noson.
- Mercher – 20<sup>fed</sup> ➤ **Moli** – Noson anffurfiol i addoli ac astudio yng Nghewn Meiriadog am 7.30. Croeso i bawb.
- Iau – 21<sup>ain</sup> ➤ **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
- **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yng Nghapel Hyfrydle, Betws yn Rhos. Pwyllgor Gwaith am 4.30, a Gwaith yr Henaduriaeth am 6.00.
- Gwener – 22<sup>ain</sup> ➤ **C.I.C.** (Clwb Ieuencid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.00.
- 
- Sul nesaf – 24<sup>ain</sup> ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mercher – 27<sup>ain</sup> ➤ **Torri Syched** – Bydd y grwpiau tai yn cyfarfod am 7.30.
- Iau – 28<sup>ain</sup> ➤ **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- **Cwrdd Chwarter Cyfundeb Gorllewin Dinbych a Fflint** yn cyfarfod am 7.00 yng Nghapel Lôn Swan, Dinbych. Cyn delio â'r materion gwaith, bydd Y Parchedig Dyfrig Rees, B.D., Ysgrifennydd Cyffredinol, Undeb Yr Annibynwyr Cymraeg yn rhoi anerchiad.
- Sul canlynol – 31<sup>ain</sup> ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Sarah Dafydd a bydd Rhodri yn pregethu.

### Peniel, Saron a Nantglyn

- Sul yma – 17<sup>eg</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Saron am 10.00, ac ar ddechrau'r oedfa, bydd aelodau Capel Saron yn cael cyfle, trwy bleidlais gudd, i fynegi eu barn ynglŷn ag a ddylid ethol mwy o flaenoriaid.
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- 
- Sul nesaf – 24<sup>ain</sup> ➤ Bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn..
- 
- Sul canlynol – 31<sup>ain</sup> ➤ Bydd y Parch. Aneurin Owen yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac yn Nantglyn am 2.00.

## Llansannan, Cefn Meiriadog a Llanfair

- Sul yma – 17<sup>eg</sup> ➤ Bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa yng Nghewn Meiriadog am 9.30 a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn.
- Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn Llansannan am 10.00 a bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa am 11.00 gydag Ysgol Sul y plant yn cydreded.
- Mawrth – 19<sup>eg</sup> ➤ Croeso i chi ddod am 'Baned a Sgwrs' yn Ffestri Llansannan o 1.30-3.30. Dewch ag eitem neu hanesyn diddorol hefo chi. Croeso cynnes i bawb.
- Mercher – 20<sup>fed</sup> ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn y Sul blaenorol**, os gwelwch yn dda.
- 
- Sul nesaf – 24<sup>ain</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Llansannan am 9.30 gydag Ysgol Sul y plant yn cydreded. Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn Llansannan am 10.30.
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Llanfair am 11.00.
- Mercher – 27<sup>ain</sup> ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn y Sul blaenorol**, os gwelwch yn dda.
- 
- Sul canlynol – 31<sup>ain</sup> ➤ Bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa yn Llansannan am 9.30 ac Ysgol Sul y plant yn cydreded. Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn Llansannan am 10.30.
- Cynhelir Ysgol Sul yng Nghewn Meiriadog am 10.00 a bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa yno am 11.00.

## Llanefydd, Cefn Berain, Henllan a Groes

- Sul yma – 17<sup>eg</sup> ➤ Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 9.30 a bydd Mr Gerallt Jones (Aberceirw) yn arwain oedfa i'r daith (Llanefydd, Cefn Berain, Henllan a Groes) **yn Groes** am 10.30.
- 
- Gwener – 22<sup>ain</sup> ➤ Swper Gŵyl Ddewi Cymdeithas Cefn Berain yn cael ei gynnal yn Neuadd Llanefydd am 7.30 a bydd adloniant gan Gôr y Porthmyn. Yr elw tuag at Gapel Cefn Berain ac Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst 2019. Croeso cynnes i bawb. Tocynnau ar gael Falmai Roberts.
- 
- Sul nesaf – 24<sup>ain</sup> ➤ Bydd Mr Steffan Job yn arwain oedfa yn Henllan am 9.30 ac yn Llanefydd am 11.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 ac yn Groes am 10.45.
- 
- Sul canlynol – 31<sup>ain</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Groes am 9.30 ac yng Nghewn Berain am 11.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00, yn Groes am 10.30, ac yn Henllan am 11.00.